# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Johnstown, Wrecsam

Dyddiad yr arolygiad: 3 Mai 2018

Dyddiad cyhoeddi: 6 Awst 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78937-597-8



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5
2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6
3. Yr hyn a ganfuom ........ 8
   - Ansawdd profiad y claf ........ 9
   - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 14
   - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 21
4. Beth nesaf? ........ 23
5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 24
   - Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 25
   - Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 26
   - Atodiad C – Cynllun gwella ........ 27

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

# Ein diben

**Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb:mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy adrodd am arfer da a'i rannu.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Johnstown, 24 y Stryd Fawr, Johnstown , Wrecsam, LL14 2SN ar 3 Mai 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Johnstown yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd digon o gyfleusterau ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi amrywiaeth o archwiliadau clinigol ar waith
- Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth
- Diweddaru'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd a chynnal asesiadau risg

- Sicrhau bod pob aelod o staff yn diweddaru eu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed
- Gweithredu mecanwaith ffurfiol i gasglu safbwyntiau cleifion

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Practis deintyddol preifat yw Practis Deintyddol Johnstown

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, un hylenydd, un nyrs ddeintyddol ac un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Johnstown yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 15 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y rhan fwyaf o'r holiaduron a gafodd eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd.

Ar y cyfan, roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn. Roedd rhai o'r sylwadau gan gleifion yn yr holiaduron yn cynnwys:

> "Gofal cwsmeriaid proffesiynol iawn, rhagorol drwy gydol fy nhriniaethau. Rydw i'n ei argymell yn gryf"
>
> *"Hapus iawn gyda'r gwasanaeth yn gyffredinol a hynny gan staff gofalgar ac ystyriol"*
>
> "Rwy'n hapus iawn ar y gwasanaeth rwyf wedi'i dderbyn. Mae'n bractis dymunol iawn"
>
> *"Gwasanaeth da a phractis cyfeillgar"*
>
> "Mae gan y practis amgylchedd da a staff sy'n gwneud i chi deimlo'n ymlaciedig iawn. *Rwy'n glaf nerfus iawn ac yn teimlo bod y staff yn gymwynasgar iawn"*

## Cadw’n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw bosteri a thaflenni gwybodaeth wedi'u harddangos a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth ynghylch y practis deintyddol ac am iechyd y geg. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i arddangos arwydd dim ysmygu wrth y fynedfa/dderbynfa, gan sicrhau bod cleifion ac ymwelwyr yn llawn ymwybodol nad yw ysmygu'n cael ei ganiatáu ar y safle, a chytunodd y practis i wneud hyn. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys mannau i gleifion gynnal sgyrsiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan (i’r graddau yr oedd yn dymuno ) o unrhyw benderfyniadau a wneid ynghylch ei driniaeth, a dywedodd pob claf ond ei fod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dywedodd y mwyafrif o’r cleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hesbonio'n glir iddynt cyn derbyn unrhyw driniaeth, a'u bod yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn y dderbynfa/man aros, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio.

Canfuom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu nodi o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar y wefan ac roedd yn cael ei harddangos o amgylch y dderbynfa a'r man aros. Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun i gleifion fynd â hi adref gyda nhw.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn eu hiaith o ddewis bob amser.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei roi ar neges y peiriant ateb, ac roedd wedi'i nodi yn y daflen wybodaeth i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y rhif ffôn brys wedi'i arddangos wrth y brif fynedfa. Gwnaethom dynnu sylw'r practis at hyn a gwnaethant arddangos y rhif ffôn ar unwaith, ynghyd ag enw a chymhwyster y prif ddeintydd.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a chanfod eu bod wedi'u cynnal yn dda. Roedd yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a cheid cydsyniad i driniaeth gan bob claf.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ond un fod y deintydd yn holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Gwnaethom sylwi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis.

Mae'r practis wedi'i leoli ar ddau lawr. Mae'r llawr daear yn gwbl hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Gallai defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad i ystafell driniaeth y llawr daear, y dderbynfa, a'r man aros.

## Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith. Roedd y weithdrefn ar gyfer cwyno neu fynegi pryder yn cael ei harddangos yn glir yn y man aros. Roedd y manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Gwnaethom adolygu polisi'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion ac, ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol ers i'r perchennog presennol gymryd yr awenau yn 2016.

Dywedodd y practis wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu nodi yng nghofnodion unigol y cleifion. Gwnaethom gynghori'r practis i gofnodi unrhyw bryderon anffurfiol mewn llyfr cofnodi canolog er mwyn nodi unrhyw themâu. Cytunodd y practis i wneud hyn ar unwaith.

Gwnaeth ychydig mwy na dau draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ddweud na ofynnwyd iddynt am eu safbwyntiau am y gwasanaeth a ddarparwyd yn y practis deintyddol, er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

Gwnaethom drafod mecanwaith y practis ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Dywedodd y practis wrthym nad oedd ganddynt system ffurfiol ar waith i gasglu safbwyntiau cleifion. Dywedodd y practis wrthym fod cleifion yn gallu darparu adborth drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Gwnaethom sylwi bod ffurflen sylwadau/argymhellion ar gael yn yr ystafell aros er mwyn i gleifion gyflwyno eu sylwadau. Fodd bynnag, nid oedd blwch sylwadau ar gael i gleifion gyflwyno argymhellion yn ddi-enw. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ddatblygu holiadur i gleifion fel eu bod yn gallu darparu adborth. Gwnaethom hefyd gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o'r adborth a dderbynnir yn y man aros/derbynfa, gan ddangos i gleifion y gweithredir ar adborth a'i fod yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau yn y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis weithredu mecanwaith ffurfiol ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o'r adborth yn cael ei arddangos i gleifion ei weld.

Sicrhau bod blwch sylwadau ar gael i gleifion gyflwyno argymhellion neu holiaduron yn ddi-enw.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod yr ystafell ddadheintio a'r ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân, yn daclus a'u bod yn cael eu defnyddio mewn modd effeithiol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o welliannau i gefnogi cyflenwi gofal diogel ac effeithiol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob man yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn fod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd un toiled neillryw at ddefnydd cleifion a staff. Roedd arwyddion ar gyfer cyfleuster ac roedd i'w weld yn lân iawn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fin gwastraff glanweithiol ar waith.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl ddyfeisiau bychain yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Fodd bynnag, canfuwyd nad oedd tystysgrif y cyfarpar tân ar gael i ni ei gweld yn ystod yr arolygiad. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Gwnaethom nodi bod angen i lyfr damweiniau'r practis gael ei ddisodli â llyfr 'Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), sy'n cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o ddalenni data yn ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), ac roedd asesiadau risg perthnasol ar waith a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod yr holl wastraff wedi cael ei ddidoli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y practis yn trefnu i'r bin gwastraff peryglus (clinigol) sydd yn yr iard gael ei osod yn gadarn ar y wal neu'r llawr wrth aros iddo gael ei gasglu.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod bin gwaredu gwastraff glanweithiol yn cael ei ddarparu yn nhoiledau'r staff/cleifion.

Anfon tystysgrif cynnal a chadw'r cyfarpar tân at AGIC.

Sicrhau bod yr holl ddamweiniau'n cael eu cofnodi mewn llyfr sydd wedi'i gymeradwyo o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

Sicrhau bod y bin gwastraff peryglus yn cael ei osod yn gadarn ar y wal neu'r llawr.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[1] Roedd y cyfleuster yn lân, yn drefnus ac wedi'i gyfarparu'n dda. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i gael gwared ar hen gadair ddeintyddol a oedd yn cael ei storio yn yr ystafell ddadheintio, a chytunodd y practis i wneud hyn.

[1] Dadheintio mewn practisau deintyddol gofal sylfaenol a gwasanaethau deintyddol cymunedol

Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn argymell y dylai fod dwy sinc neilltuedig ar gael ar gyfer gwaith dadheintio, un ar gyfer golchi a glanhau'r offerynnau, a'r llall ar gyfer eu rinsio. Gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried ailddylunio'r ystafell ddadheintio mewn unrhyw gynlluniau i ailwampio yn y dyfodol, fel y gellir gosod sinc ychwanegol neu sinc ddwbl ar gyfer cynnal gwaith dadheintio. Hyd nes y bydd dwy sinc yn cael eu gosod, neu sinc ddwbl, gwnaethom argymell i'r practis y dylid defnyddio dwy fowlen. Mae hyn oherwydd, ar ôl glanhau offer yn y sinc neu fowlen gyntaf, y gall y gweithredwr rinsio'r offerynnau glân yn effeithlon yn yr ail sinc neu fowlen, a fydd yn lleihau'r perygl o ailheintio'r offerynnau â sylweddau glanhau neu lanedyddion.

Dangosodd y staff y broses ddadheintio a chanfuom fod y gweithdrefnau ar waith ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offer yn unol â'r canllawiau arfer gorau diweddaraf. Fodd bynnag, fe wnaethom argymell y dylai'r practis gyflwyno rhestr wirio fwy ffurfiol ar gyfer hyfforddiant dadheintio, a ddylai gael ei chadw gyda chofnodion hyfforddiant unigol staff i ddangos bod hyfforddiant wedi'i gwblhau ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Cawsom wybod gan y practis nad yw archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cynnal. Gwnaethom argymell bod archwiliad rheoli heintiau'n cael ei gynnal cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r dull archwilio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, sef y safon ar gyfer arferion dadheintio a rheoli heintiau mewn practisau deintyddol yng Nghymru. Cytunodd y practis i gynnal yr archwiliad rheoli heintiau ar unwaith.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod cyn lleied o berygl o groes-heintio â phosibl i ddiogelu cleifion a staff. Gwnaethom nodi hefyd fod yr offerynnau deintyddol yn cael eu storio a'u cludo yn unol â'r polisi dadheintio cyfredol. Roedd yr holl offerynnau mewn bagiau ac yn cynnwys y dyddiad prosesu. Fodd bynnag, er hwyluster o ran cyfeirio, rydym yn cynghori'r practis i gofnodi'r dyddiad dod i ben ar yr holl offer yn ogystal â'r dyddiad y caiff ei brosesu.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Gwaredu ar yr hen gadair ddeintyddol o'r ystafell ddadheintio.

Defnyddio dwy fowlen ar gyfer golchi a rinsio yn y sinc dadheintio.

Cyflwyno rhaglen hyfforddi fwy ffurfiol at ddibenion hyfforddiant dadheintio.

Ymgymryd ag archwiliad rheoli heintiau llawn.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant mewn dadebru cardio-pwlmonaidd ac roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig.

Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau brys i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn barod i'w defnyddio.

Cawsom wybod gan y practis fod y dyddiad ar ddau *chwistrellwr adrenalin awtomatig (epi-pens) i oedolion* a *chyffur midazolam* i blant wedi dod i ben. Fodd bynnag, dangoswyd dogfennau inni a oedd yn dangos bod yr eitemau hyn wedi cael eu harchebu i ddod y diwrnod wedyn.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuwyd gennym fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, cawsom wybod gan y practis fod angen i bob aelod o staff ddiweddaru eu hyfforddiant o ran diogelu cyn hir. Cawsom ein sicrhau ar lafar fod trefniadau ar y gweill er mwyn i'r staff ddiweddaru eu hyfforddiant.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod gan bob aelod o staff wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid sicrhau bod staff yn diweddaru eu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfuom eu bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion. Roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi'u trefnu'n dda ac yn daclus. Fodd bynnag,

gwnaethom nodi bod angen i'r lloriau yn yr ystafelloedd triniaeth gael eu selio wrth yr ymylon. Cawsom wybod gan y practis fod ailosod y lloriau yn yr ystafelloedd triniaeth yn rhan o'u cynlluniau ailwampio ac y byddai'r holl deils yn cael eu tynnu oddi yno ac y byddai'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu paentio.

Gwelsom dystiolaeth fod y cywasgydd yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd y dystysgrif ar gyfer y cywasgydd ar gael yn ystod ein hymweliad. Cawsom dystiolaeth ar lafar fod y cywasgydd wedi cael ei archwilio.

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel ac roedd y practis wedi cynnal archwiliadau trwyadl i sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio (RhYÏ(DM) ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n ymwneud â chynnal sganiau pelydrau-X.

Gwnaethom argymell i'r practis fod y ffeil diogelu ymbelydredd yn cael ei haildrefnu er mwyn ei gwneud yn haws dod o hyd i wybodaeth. Gwnaethom hefyd gynghori'r practis i gynnal asesiadau risg a ddylai nodi nad oes angen bathodynnau dos ymbelydredd personol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Anfon tystysgrif gwasanaethu'r cywasgydd at AGIC.

Diweddaru a threfnu'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd a chynnal asesiadau risg.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Nid oedd gan y practis raglen ar waith ar gyfer cynnal amrediad eang o archwiliadau clinigol, gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella. Rydym yn argymell bod y practis yn rhoi rhaglen o archwiliadau ar waith trwy gydol y flwyddyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cyflwyno amrediad o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella.

## Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Trwy drafod â staff, fe'n hysbyswyd bod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol wedi cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Gwnaeth y practis ein hysbysu nad yw wedi defnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru. Mae hwn yn ddull hunanwerthuso sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio, gan alluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd polisi diogelu data ar waith. Roedd y dull o storio gwybodaeth cleifion yn briodol er mwyn sicrhau bod data personol yn ddiogel. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat.

## Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth fod y practis yn cadw cofnodion clinigol da, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i gyflenwi i safon uchel er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod nodiadau yn cynnwys gwybodaeth ddigonol o ran trafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth, costau, risgiau a manteision, a sut y cafwyd cydsyniad y claf. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth ac roedd cynlluniau triniaeth yn cael eu rhoi i'r holl gleifion. Roedd cyngor ar sgrinio am ganser a rhoi'r gorau i ysmygu hefyd wedi cael ei roi a'i gofnodi.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ond un fod y deintydd yn holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Gwelsom dystiolaeth fod hanes meddygol cleifion yn cael ei ddiweddaru yn eu nodiadau ar gyfer pob cwrs o driniaeth ac ar lafar ym mhob apwyntiad. Fodd bynnag, gwnaethom argymell i'r practis y dylid diweddaru hanes meddygol cleifion yn rheolaidd ar bapur ac y dylent gynnwys llofnod y claf a chael eu cydlofnodi gan y deintydd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod hanes meddygol cleifion yn cael eu diweddaru’n rheolaidd ar bapur, a’u bod yn cael eu llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y deintydd.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom dystiolaeth fod y practis hwn yn un a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis bod angen adolygu rhai polisïau a'u gwneud yn fwy perthnasol i'r practis.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn y practis.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol gyda'r prif ddeintydd, ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Gwelsom fod y staff yn glir ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau a gwelsom fod perthynas dda iawn rhyngddynt.

### Staff ac adnoddau

#### Gweithlu

Gwelsom ffolderi ymsefydlu staff a oedd wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisïau a gweithdrefnau.

Gwnaethom gynghori'r practis i ddyfeisio rhestr wirio ymsefydlu ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff, a chytunodd y practis i wneud hynny.

Gwelsom hefyd fod gan staff fynediad at amrediad eang o hyfforddiant; a bod hwn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Nid oedd arfarniadau staff wedi'u cynnal ers peth amser oherwydd y newid o ran perchnogaeth y practis. Cawsom sicrwydd ar lafar fod trefniadau ar waith i gynnal arfarniadau staff yn flynyddol.

Fe'n hysbyswyd ni bod y tîm yn cwrdd yn anffurfiol yn rheolaidd i drafod unrhyw broblemau. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadw. Gwnaethom argymell i'r practis y dylid llunio cofnodion pob cyfarfod boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd hepatitis B yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod rhai o'r polisïau a'r gweithdrefnau yn generig. Gwnaethom hysbysu'r practis i'w hadolygu a sicrhau bod yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu gwneud yn fwy perthnasol i'r practis – er enghraifft, y polisi rheoli heintiau. Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad adolygu a / neu roedd y fersiynau'n cael eu rheoli, gyda llofnodion staff i ddangos bod y rhain wedi cael eu darllen a'u deall.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn flynyddol.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae angen i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC lle mae angen cymryd camau gweithredu o hyd a/neu maent ar waith, a chadarnhau pryd yr aethpwyd i’r afael â hwy.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

The practice is subject to the provisions of the Private Dentistry (Wales) Regulations 2017.Where appropriate we consider how the practice meets these regulations, as well as the Ionising Radiations Regulations 1999, the Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations 2000 and any other relevant professional standards and guidance such as the General Dental Council Standards for the Dental Team.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Johnstown

## Dyddiadau'r arolygiad: 3 Mai 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Johnstown

## Dyddiadau'r arolygiad: 3 Mai 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r practis weithredu mecanwaith ffurfiol ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o'r adborth yn cael ei arddangos i gleifion ei weld. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 16 | Bydd arolygon boddhad cleifion ac adborth blynyddol gan gleifion yn cael eu hamserlenni a'u rhoi ar waith. Ar ôl cwblhau'r arolygon blynyddol, bydd y canfyddiadau'n cael eu hadolygu ac unrhyw feysydd nad ydynt yn bodloni disgwyliadau'n derbyn sylw. Yn ogystal, bydd llyfr cofnodion yn cael ei gadw yn y dderbynfa er mwyn galluogi unrhyw bryderon/cwynion/sylwadau i gael eu cofnodi – bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bydd unrhyw | V. Serban | Wedi'i gwblhau<br>Arolwg blynyddol – ymhen 12 mis; Llyfr cofnodi sylwadau a ffurflenni adborth – eisoes ar |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | feysydd o bryder neu themâu sy'n codi dro ar ôl tro'n derbyn sylw. | | waith |
| Sicrhau bod blwch sylwadau ar gael i gleifion gyflwyno argymhellion neu holiaduron yn ddienw. | | Mae blwch sylwadau wedi'i osod yn yr ystafell aros/ardal y dderbynfa er mwyn i gleifion gyflwyno argymhellion a holiaduron yn ddienw. | V. Serban | Wedi'i gwblhau |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Sicrhau bod biniau gwaredu gwastraff glanweithiol yn cael eu darparu yn nhoiledau'r staff/cleifion. | Rheoliadau'r Gweithle 1992 (Iechyd, Diogelwch a Lles) | Mae camau gweithredu eisoes wedi'u cymryd, rhoddwyd bin yn nhoiledau'r staff/cleifion. | V. Serban | Wedi'i gwblhau |
| Anfon tystysgrif cynnal a chadw'r cyfarpar tân at AGIC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 22, (4)(a) | Gweler y ddogfen sydd wedi'i hatodi. | V. Serban | Wedi'i gwblhau |
| Sicrhau bod yr holl ddamweiniau'n cael eu cofnodi mewn llyfr sydd wedi'i gymeradwyo o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR). | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Mae llyfr Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) wedi'i archebu a bellach yn yr adeilad yn | V. Serban | Wedi'i gwblhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | barod pe bai damweiniau'n digwydd. | | |
| Sicrhau bod y bin gwastraff peryglus yn cael ei osod yn gadarn ar y wal neu'r llawr. | Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2000 | Sicrhau bod y bin gwastraff peryglus yn cael ei osod yn gadarn ar y wal neu'r llawr â chadwyn â chlo clap. | V. Serban | Wedi'i gwblhau |
| Gwaredu ar yr hen gadair ddeintyddol o'r ystafell ddadheintio. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 6.40 | Gwaredwyd ar yr hen gadair ddeintyddol o'r ystafell ddadheintio y diwrnod ar ôl yr archwiliad. | V Serban | Wedi'i gwblhau |
| Defnyddio dwy bowlen ar gyfer golchi a rinsio yn y sinc dadheintio. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 2.4 (r) | Gosodwyd dwy bowlen eisoes ar gyfer golchi a rinsio yn y sinc dadheintio. | V. Serban | Wedi'i gwblhau |
| Cyflwyno rhestr wirio fwy ffurfiol ynghylch hyfforddiant dadheintio. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 1.26 a 2.4 (o) | Cymerwyd camau ac aethpwyd i'r afael â'r mater unwaith eto. Trafodwyd â staff mewn cyfarfod staff. Gwelliannau i'w rhoi ar waith | V. Serban | 4–6 wythnos |
| Cynnal archwiliad rheoli heintiau llawn. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, | Mae'r archwiliad rheoli heintiau eisoes wedi'i gynnal, ysgrifennwyd nodiadau. Trafodwyd y gwelliannau â'r staff mewn | V. Serban | Wedi'i gwblhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Adran 2.23 | cyfarfod staff. Cofnodion o'r cyfarfod staff wedi'u gwneud. | | |
| Sicrhau bod pob aelod o staff yn diweddaru eu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 14, (b) | Rydw i eisoes wedi trefnu hyn ac mae'r hyfforddiant wedi cael ei gynnal. Cyfeiriwch at y tystysgrifau sydd eisoes wedi cael eu hanfon atoch chi. | V. Serban | Wedi'i gwblhau |
| Anfon tystysgrif gwasanaethu'r cywasgydd at AGIC. | Rheoliadau Systemau Pwysedd a Chynwysyddion Nwy Cludadwy 1989<br>Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysedd 2000 | Gweler y ddogfen sydd wedi'i hatodi. | | |
| Diweddaru a threfnu'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd a chynnal asesiadau risg. | Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999<br>Rheoliadau Ymbelydredd | Bydd camau gweithredu'n cael eu cymryd er mwyn diweddaru a threfnu'r ffeil diogelu rhag ymbelydredd. Asesiad risg i'w roi ar waith a'i drafod yn ystod y cyfarfod staff misol. | V. Serban | 4–6 wythnos |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | | | |
| Dylid cyflwyno amrediad o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 16 | Gallaf gadarnhau ein bod eisoes wedi dechrau rhoi archwiliadau clinigol ar waith. Byddaf yn sicrhau bod y cofnodion priodol yn cael eu cadw yn y dyfodol fel tystiolaeth o hyn. | V. Serban | Wedi'i gwblhau |
| Dylid hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. | Deoniaeth Cymru | Trefniadau i'w rhoi ar waith er mwyn cydymffurfio a gwahodd Tiwtor Datblygu Arfer i gynnal y gwerthusiad | V. Serban | 3–6 mis |
| Sicrhau bod hanes meddygol cleifion yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar bapur, a'u bod yn cael eu llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y deintydd. | Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Adran 4.1.1 | Mae system newydd ar waith i ddiweddaru hanesion meddygol gyda llofnod y claf yn ogystal â'r deintydd | V. Serban | Wedi'i gwblhau |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Sicrhau bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn flynyddol | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 17) | Gallaf gadarnhau fy mod eisoes wedi rhoi proses arfarnu blynyddol ar waith. Byddaf yn sicrhau bod cofnodion priodol ar gael yn y dyfodol i ddangos | V. Serban | Wedi'i gwblhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | tystiolaeth o hyn. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Vera Serban**

**Swydd: Prif Ddeintydd**

**Dyddiad: 5.07.2018**